RETT SYNDROME ASSOCIATION UK

113 Friern Barnet Road, London N11 3EU
Tel: 0870 770 3266 Fax: 0870 770 3265
local callers Tel: 020 8361 5151 Fax: 020 8368 6123
E-mail: info@rettsyndrome.org.uk
www.rettsyndrome.org.uk

CYMDEITHAS SYNDROM RETT

Ynglŷn â'r gymdeithas
Rydym yn fudiad cenedlaethol sy'n cynnig cymorth, cyngor a chefnogaeth i deuluoedd, gofalwyr a gweithwyr yn y maes – yn wir, i unrhyw un sy'n dod i gysylltiad â Syndrom Rett mewn unrhyw ffordd.

Ein gwasanaethau
- Clinigau Diagnostig a rheolaeth ar gyfer pob teulu;
- Clinigau therapi – cyfle i gysylltu ag arbenigwyr;
- Grwpiau cymorth a rhwydwaith o gefnogwyr;
- Datblygu gwybodaeth arbenigwyr;
- Penwythnos Blynyddol y Teulu – gwybodaeth, cyngor a chyfle i ofalwyr gael seibiant;
- Dyddiau Teulu – cefnogaeth a gwybodaeth;
- Llinell Gymorth 7 diwrnod yr wythnos;
- Pob math o wybodaeth, ar bapur a fideo;
- Cylchlythyr bob tri mis, *Rett News*;
- Talu am gymorth i deuluoedd ac am ymchwil er mwyn i deuluoedd adnabod y syndrom yn fwy buan;
- Cydweithio'n rhyngwladol.

Beth yw Syndrom Rett?
Mae Syndrom Rett yn anhwylder niwrolegol cymhleth sy'n effeithio ar enethod, fel arfer. Er nad yw'r arwyddion yn ymddangos ar unwaith, mae'n bresennol o'r dyddiad geni ac yn dod yn fwy amlwg yn ystod ail flwyddyn bywyd y plentyn. Mae pobl â Syndrom Rett yn anabl iawn mewn sawl ffordd, ac yn gwbl ddibynnol ar eraill drwy gydol eu bywydau.

Pam yr enw "Syndrom Rett"?
Diffiniad "syndrom" yw "nifer o arwyddion sy'n ymddangos gyda eu gilydd, ac sy'n awgrymu presenoldeb cyflwr meddygol penodol". Meddyg o Awstria, Athro Andreas Rett, oedd y cyntaf i ddisgrifio'r arwyddion yn 1966.

Beth sy'n achosi Syndrom Rett?
Mae Syndrom Rett yn rhedeg yn y teulu. Mae'n debyg mai dyma brif achos anableddau meddyliol a chorfforol dwys mewn menywod. Mae'n effeithio ar un o bob 10000 menyw. Daeth i'r amlwg yn ddiweddar fod gan fwyafrif y rhai sydd â Syndrom Rett ddiffyg ar genyn MECP2 ar gromosom X.

Sut mae adnabod Syndrom Rett?
Profion meddygol sy'n sylwi arwyddion ac ymddygiad. Yr arwyddion amlwg yw:

- Ar ôl datblygu'n naturiol am flwyddyn, does dim datblygiad am ychydig; wedyn mae'r plentyn yn dechrau cymryd camau'n ôl;
- Mae galluoedd siarad a defnyddio dwylo yn gwaethygu rhwng 9 mis a 30 mis oed;
- Ailadrodd symudiadau dwylo – gwasgu, patio, curo, tapio, gosod yn y geg);
- Ymddangos yn stiff wrth sefyll neu'n afrosgo wrth gerdded;
- Tyfiant pen yn peidio rhwng 2 fis a 4 blwydd oed;
- Methu adnabod unrhyw salwch neu anhwylder arall a fyddai'n achosi'r arwyddion.

Arwyddion cyffredin eraill:

- Trafferthion anadlu – gor-anadlu, dal anadl, llyncu aer;
- EEG anarferol;
- Epilepsi – mae tua hanner dioddefwyr Syndrom Rett yn dioddef epilepsi'n rhywbryd;
- Cyhyrau'n mynd yn stiff, cymalau'n colli siâp, cyhyrau'n lleihau;
- Cerdded yn ansefydlog, gyda thraed ar led (mae tua hanner dioddefwyr Syndrom Rett yn gallu symud ar eu pennau eu hunain);
- Datblygu scoliosis (asgwrn cefn yn crymu);
- Methu tyfu'n arferol.

Rett Syndrome Association UK, 113 Friern Barnet Road, London N11 3EU
Ffôn: 0870 770 3266
Ffacs: 0870 770 3265
e-bost: info@rettsyndrome.org.uk
www.rettsyndrome.org.uk

Noddwyr Anrhydeddus: Ann Clwyd MP, Evelyn Glennie OBE, Gloria Hunniford
Llywydd Anrhydeddus: Yvonne Milne MBE,
Ymgynghorwyr Meddygol: Dr H Cass BSc MRCP FRCPCH Dr A J Clarke DM FRCP Mr D J Harrison FRCS Prof M Hulten MD PhD FRCpath Dr A M Kerr MBCLB DCH-FRCP FRCP&CH Dr M Lawson PhD SRD Dr R Morton FRCP FRCPCH Prof B G R Neville FRCP Prof S Reilly PhD MRCSLT Dr D G Stevens MRCGP MRCPsych Mr P Webb BSc FRCS L Weekes FCSP Dr A L Wigram PhD LGSM (MT) RMTh A Wisbeach DipCot SROT

Rhif elusen gofrestredig: 327309 Mawrth 2001

Sut mae ein helpu yn y gwaith?

☐ Trwy anfon rhodd.
Siec / archeb bost taleb CAF am: £ _____
(Sieciau i: RSAUK)
neu cymrwch arian oddi ar fy Visa / Mastercard / Access

Dyddiad Gorffen: _____ / _____ Enw ar y cerdyn: _____

☐ Cynnal achlysur codi arian

☐ Gwirfoddoli

☐ Ymaelodi

Rhowch eich manylion MEWN LLYTHRENNAU BRAS

Enw:
Cyfeiriad:
Côd post:
Ffôn:

Am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Ffôn: 020 8361 5161
Ffacs: 020 8368 6123
e-bost: info@rettsyndrome.org.uk